**EPT-13-01 (min)**

# PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mercher 11 Gorffennaf 2001 |
| Amser: | 2:00 pm hyd 4:30 pm |
| Lleoliad: | Theatr Brycheiniog, Canal Wharf, Aberhonddu LD3 7EW |

**Yn bresennol:**

***Aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth***

| | |
|---|---|
| Richard Edwards, Cadeirydd | Preseli Sir Benfro |
| David Davies | Mynwy |
| Sue Essex, Gweinidog dros yr Amgylchedd | Gogledd Caerdydd |
| Helen Mary Jones | Llanelli |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Kirsty Wlliams (yn dirprwyo dros Mick Bates) | Brycheiniog a Sir Faesyfed |

***Swyddogion:***

| | |
|---|---|
| Martin Evans | Cyfarwyddwr y Grwp Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd |
| Keith Bush | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |
| Bob Macey (eitemau 2 a 4) | Pennaeth Is-adran Gwarchod yr Amgylchedd |
| Gerry Quarrell (eitem 3) | Yr Is-adran Cefn Gwlad |

| | |
|---|---|
| Robin King (eitem 3) | Yr Is-adran Cefn Gwlad |
| Robert Williams (eitem 4) | Is-adran Gwarchod yr Amgylchedd |
| Sarah Downes (eitem 4) | Yr Uned Cymorth Polisi Gwastraff |
| Tony Parker (eitem 5) | Pennaeth yr Is-adran Prosiectau Mawr |
| ***Ysgrifenyddiaeth:*** | |
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

0.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau, swyddogion ac aelodau'r cyhoedd i gyfarfod cyntaf Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth i'w gynnal yn y Canolbarth. Hysbysodd yr aelodau:

- fod ymateb y pwyllgor i gylch cynllunio'r gyllideb wedi ei anfon at y Gweinidog Cyllid ar 5 Gorffennaf. Câi copi ei atodi at y cofnodion a'i gyhoeddi ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol (gweler isod);
- y byddai adroddiad ymgynghorol y pwyllgor ar drafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei lansio ar 25 Gorffennaf yng nghyfnewidfa Caerffili;
- fod y Gweinidog dros yr Amgylchedd wedi cyhoeddi datganiadau yn nodi pa achosion oedd i gael eu hystyried gan Bwyllgorau Penderfyniadau Cynllunio. Câi tri phwyllgor ei ethol yr wythnos ddilynol, a byddai angen i rai ohonynt gwrdd yn ystod y gwyliau.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Geraint Davies, John Griffiths a Mick Bates, yr oedd Kirsty Williams yn dirprwyo drosto.

1.2 Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau o dan Reol Sefydlog 4.5. Datganodd Kirsty Williams fod gan ei gwr fusnes ffermio.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog dros yr Amgylchedd** - EPT-13-01 (p 1)

2.1 Cyflwynodd Sue Essex ei hadroddiad, a rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor ar

y materion canlynol:

- Partneriaeth yr Arfordir a'r Glannau – byddai hon yn rhoi cyngor cyd-drefnus i'r Cynulliad Cenedlaethol ar faterion datblygu cynaliadwy sy'n effeithio ar yr arfordir, ac yn hybu cyfnewid gwybodaeth ac ymarfer da. Câi cyfarfod ei gynnal ar 19 Gorffennaf;
- Mynediad – erbyn hyn roedd 60% o lwybrau troed Ceredigion wedi eu hagor a dim ond mynediad drwy fuarth ffermydd oedd yn dal ar gau;
- Ansawdd Dwr Yfed – cyhoeddwyd Adroddiad 2000 yr Arolygiaeth Dwr Yfed ar Gymru y diwrnod hwnnw. Roedd 99.77% o'r profion wedi cyrraedd y safonau gofynnol, ac roedd ansawdd dwr yng Nghymru yn uchel iawn;
- Glas Cymru – cynhaliwyd cyfarfod blynyddol cyntaf y cwmni ar 6 Gorffennaf, pryd y cyhoeddwyd bod Glas Cymru wedi cyflawni'r chwe amod a osodwyd gan y rheoleiddiwr dwr, OFWAT.

2.2 Ymdriniwyd â'r pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Llifogydd – roedd y glaw trwm yr wythnos flaenorol wedi achosi fflachlifogydd mewn rhannau o Gymru. Roedd yr aelodau'n bryderus bod llifogydd wedi digwydd unwaith eto mewn mannau y gwyddys eu bod yn dueddol o ddioddef, a galwasant ar yr awdurdodau lleol i wneud gwaith adfer ar y seilwaith cyn gynted â phosibl. Roedd fformiwla Bellwin yn galluogi awdurdodau lleol i hawlio cost gwaith adfer o'r fath yn ôl;
- Roedd yna bryder bod nifer y traethau y dyfarnwyd y faner las iddynt yng Nghymru wedi gostwng. Er gwaethaf hyn, roedd gan Gymru ganran uwch o draethau Baner Las na Lloegr;
- Canllawiau polisi cynllunio drafft – derbyniwyd 143 o ymatebion ymgynghori, ac roedd yna gefnogaeth eang i'r cynigion 'llain glas’ a ‘lletem las’;

- Rheoliadau Ansawdd Aer – codwyd cwestiynau gan aelodau ynglyn â'r rhesymeg y tu cefn i rannu Cymru yn ddau barth daearyddol at ddibenion monitro ansawdd yr aer. Byddai'r swyddogion yn paratoi nodyn esboniadol i'r aelodau;
- Cyfarfod y sector gwirfoddol – ystyriodd y pwyllgor yr adroddiad ar gyfarfod y Gweinidog gyda'r sector gwirfoddol, yn unol â gofynion Cynllun y Sector Gwirfoddol. Cododd yr aelodau fater y cyllid a ddarparir i'r sector gwirfoddol drwy Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Byddai'r Gweinidog yn adolygu'r mater hwn gyda'r Cyngor Cefn Gwlad.

***Pwyntiau Gweithredu***

- *Y swyddogion i gylchredeg nodyn esboniadol ar barthau ansawdd aer i'r aelodau.*

**Eitem 3: Deddf CROW: ymgynghoriad drafft ar fforymau mynediad** - EPT-13-01 (p 2)

3.1 Ceisiodd Sue Essex farn y pwyllgor am y ddogfen ymgynghorol ddrafft ar y rheoliadau i fforymau mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW).

3.2 Croesawai'r pwyllgor yr amserlen ymgynghori, a gofynnodd am roi sylw i'r pwyntiau canlynol yn y canllawiau a fyddai'n mynd law yn llaw â'r rheoliadau:

- Aelodaeth y fforymau – trafododd y pwyllgor y ffordd o ddethol aelodau'r fforymau a hyd eu cyfnod gwasanaeth, a'r teimlad oedd y dylai'r broses ddethol ddilyn egwyddorion cydraddoldeb cyfle, heb danseilio cynaliadwyedd y fforymau i'r dyfodol. Awgrymwyd bod y Gweinidog yn gofyn i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal am ei sylwadau ar y canllawiau drafft maes o law;
- Cynnal cydbwysedd rhwng buddiannau – yn ôl Deddf CROW mae gofyn cael cydbwysedd cydradd rhwng defnyddwyr tir a rheolwyr tir ar y fforymau. Roedd yn holl bwysig bod y fforymau yn sensitif i bob safbwynt, a'u bod yn gweithredu mewn ffordd adeiladol.

3.3 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau fod gofyn diwygio'r rheoliadau ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA) o dan Ddeddf CROW. Cytunodd y pwyllgor i ystyried y rheoliadau drafft *ar ôl* yr ymgynghoriad cyhoeddus, yn nhymor yr Hydref, o ystyried y cyfnod tri mis o wyliau.

**Eitem 4: Strategaeth Gwastraff "Rheoli Gwastraff mewn Modd Cynaliadwy"** – EPT-13-01 (p 3)

4.1 Ceisiodd Sue Essex farn y pwyllgor ar y ddogfen ymgynghorol, yn enwedig y materion hynny y tynnwyd sylw atynt ym mharagraff 3 y papur cysylltiol.

4.2 Croesawai'r pwyllgor y strategaeth ddrafft, ac awgrymodd y dylid pwysleisio'r meysydd canlynol:

- Lleihau swmp y gwastraff – byddai ailgylchu a gwneud compost yn gostwng canran y gwastraff sy'n mynd i safleoedd claddu. Fodd bynnag, gan fod swmp y gwastraff a gynhyrchir yn siwr o gynyddu, efallai na cheir gostyngiad yn swmp y gwastraff a anfonir i'w gladdu yn y dyfodol agos. Roedd y pwyllgor o'r farn bod lleihau swmp y gwastraff yn hanfodol, ynghyd â datblygu dulliau mwy gwyrdd o'i waredu. Teimlai'r aelodau yn gryf y dylai'r pwyslais fod ar gael busnesau i leihau swmp eu gwastraff ac i ailgylchu gwastraff y gellid ei adennill, gan mai dyma sydd i gyfrif am fwyafrif y gwastraff sy'n cael ei anfon i'w gladdu;
- Targedau – holodd yr aelodau a oedd y prinder data sydd ar gael am waredu gwastraff yn ei gwneud hi'n anodd gosod targedau realistig. Nododd y pwyllgor fod yr awdurdodau lleol o'r farn bod y targedau yn her ond y gellid eu cyflawni, a phwysleisiodd yr angen i'r Cynulliad Cenedlaethol fonitro perfformiad awdurdodau lleol yn fanwl a pharhau i

bridiannu arian ar gyfer gwaredu gwastraff, fel cymhelliad. Roedd yr opsiwn o roi'r targedau ar sail statudol ar gael, pe bai yna unrhyw berygl na fyddai Cymru yn llwyddo i gyflawni'r targedau a osodwyd gan Gyfarwyddeb Claddu Sbwriel Ewrop;
- Lleoli cyfleusterau gwastraff – roedd yna bryder bod rhai awdurdodau lleol yn ystyried llosgi fel ffordd o leihau swmp y gwastraff sy'n cael ei gladdu, ac roedd yn hanfodol eu bod yn ystyried opsiynau gwyrddach yn is i lawr yr hierarchaeth gwastraff yn gyntaf. Byddai lleoliad cyfleusterau rheoli gwastraff, yn enwedig gwastraff peryglus, yn fater cynhennus, a dylai awdurdodau lleol symud ymlaen ar hyn mewn partneriaeth â chymunedau lleol;
- Gwastraff domestig – roedd angen cyfleusterau casglu a storio digonol os oedd aelwydydd i ailgylchu gwastraff domestig. Roedd addysg yn holl bwysig er mwyn newid meddylfryd, ac roedd yna nifer o enghreifftiau cadarnhaol o ysgolion a phartneriaid yn y sector gwirfoddol yn hyrwyddo cynllunio ailgylchu ymysg pobl ifanc sydd wedyn yn dylanwadu ar eu teuluoedd.

4.3 Hysbysodd y Cadeirydd y pwyllgor fod Bruce Mildenhall AS, Cadeirydd Pwyllgor Lleoli Gwastraff Peryglus Llywodraeth Victoria, wedi cwrdd â rhai o aelodau'r pwyllgor yn ddiweddar i drafod materion rheoli gwastraff. Awgrymodd y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ddysgu o'r ymarfer gorau ym maes rheoli gwastraff yn Awstralia a mannau eraill.

**Eitem 5: Fframwaith Trafnidiaeth Drafft** - EPT-13-01 (p 4)

5.1 Ceisiodd Sue Essex farn y pwyllgor ar y fframwaith trafnidiaeth drafft cyn ei gyhoeddi yn yr hydref.

5.2 Cefnogai'r pwyllgor y fframwaith drafft, ac roedd yn ddiolchgar i'r Gweinidog a'r swyddogion am ddrafftio'r ddogfen yn hyblyg er mwyn cymryd argymhellion terfynol adolygiad y pwyllgor o drafnidiaeth gyhoeddus i ystyriaeth. Ymdriniwyd â'r pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Materion trawsffiniol – croesawyd cyfraniad cadarnhaol awdurdodau lleol yng Ngogledd Orllewin Lloegr. Roedd angen tywys materion trawsffiniol yng Ngogledd Ddwyrain Cymru yn eu blaen mewn ymgynghoriad agos ag awdurdodau cyfagos, fel sy'n digwydd eisoes ar strategaethau cynllunio lleol;
- Cysylltiadau Gogledd-De a Dwyrain-Gorllewin – yn gyffredinol roedd trafnidiaeth gyhoeddus ar hyd y coridorau hyn yn wael, a dylid rhoi pwysau ar weithredwyr trafnidiaeth i wella pob agwedd o'r gwasanaeth, yn arbennig pa mor ddibynadwy yw.

5.3 Croesawai'r Cadeirydd y gydberthynas rhwng llawer o'r ymatebion ymgynghori ar y fframwaith drafft a'r argymhellion yn yr adroddiad y mae'r pwyllgor ar fin ei gyhoeddi ar drafnidiaeth gyhoeddus, a gâi ei lansio ar 25 Gorffennaf.

**Eitem 6: Cofnodion y cyfarfodydd ar 21ain a 27ain Mehefin** - EPT-11-01 (min) ac EPT-12-01

(min)

6.1 Mabwysiadodd y pwyllgor gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 21ain a 27ain Mehefin.

**Sylwadau i gloi**

7.1 Ar ran y pwyllgor, diolchodd y Cadeirydd i Theatr Brycheiniog am estyn croeso i'r cyfarfod.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

8.1 Byddai cyfarfod nesaf y pwyllgor am 2.00 pm ddydd Mercher 17 Hydref 2001, yn Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Gorffennaf 2001**

Edwina Hart AC

Gweinidog dros Gyllid,

Llywodraeth Leol a Chymunedau

**Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth**

**Environment, Planning and Transport Committee**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay

Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

5 Gorffennaf 2001

Annwyl Edwina,

Ystyriodd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth bapur materion y Gweinidog dros yr Amgylchedd ar gylch cynllunio'r gyllideb yn ei gyfarfod ar 13 Mehefin, ac ar 21 Mehefin rhoddodd brawf ar gynigion cyrff a noddir a'r Parciau Cenedlaethol am adnoddau ychwanegol.

Fel pwyllgor, rydym yn cefnogi blaenoriaethau Sue Essex ar gyfer yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, sef:

- bwrw ymlaen tuag at wireddu system drafnidiaeth fwy integredig;
- tywys y strategaeth gwastraff yn ei blaen;
- gweithredu'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy er mwyn gwella mynediad i gefn gwlad;
- datblygu'r Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol;
- sicrhau bod Cadw yn parhau i gyflawni o'i fesur yn erbyn ei dargedau Asiantaeth.

O safbwynt **trafnidiaeth integredig**, bydd y pwyllgor yn cyhoeddi adroddiad ymgynghorol yn y dyfodol agos, sy'n galw ar y Cynulliad Cenedlaethol, awdurdodau lleol a gweithredwyr trafnidiaeth i fynd i'r afael â'r tanfuddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus sy'n mynd yn ôl flynyddoedd. Croesawn y pecyn pum mlynedd a gyhoeddwyd yn gynharach eleni i gyllido trafnidiaeth, a chydnabyddwn ymrwymiad Sue Essex i gymryd argymhellion adroddiad y pwyllgor i ystyriaeth cyn cyhoeddi'r Grant Trafnidiaeth a mesurau trafnidiaeth eraill ar gyfer 2002-03. Fodd bynnag, teimlwn **fod angen adnoddau ychwanegol ar ben y dyraniadau presennol er mwyn gwireddu amcanion trafnidiaeth integredig ehangach y Cynulliad Cenedlaethol**. Gofynnwn hefyd i chi sicrhau bod yr arian a ‘ddyrannwyd’ i Gymru i fod yn gefn i'r Gronfa Moderneiddio Cludiant Nwyddau ar y Ffyrdd yn cael ei sicrhau, a hynny yn ychwanegol at ddyraniad bloc Barnett.

O ran y **Strategaeth Gwastraff**, rydym o'r farn **bod angen cymorth ychwanegol yn y flwyddyn ariannol nesaf** i gynorthwyo awdurdodau lleol i ddatblygu systemau casglu ar wahân ac i symud ymlaen i ailgylchu a chompostio mwy. Hefyd, rydym am dynnu sylw at y ffaith y byddwn yn cyflwyno adroddiad ar yr ymchwiliad i safle claddu sbwriel Nantygwyddon yn ddiweddarach eleni, a gallai arwain at ofynion ychwanegol o ran adnoddau.

Yn gyffredinol, mae gennym gydymdeimlad â'r ceisiadau am adnoddau ychwanegol oddi wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd – Cymru ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru, a gadawn i Sue Essex benderfynu pa flaenoriaeth i'w rhoi i'w gwahanol geisiadau. Fodd bynnag, awgrymwn y dylid ystyried gwella'r modd y cyflenwir gwasanaethau a gwneud arbedion effeithlonrwydd drwy ragor o gydweithio rhwng y cyrff hyn, neu drwy resymoli swyddogaethau sy'n gyffredin iddynt. Byddwn yn dychmygu mai'r ffordd orau o ymdrin â'r materion hynny yw drwy adolygiad pum mlynedd y Cyngor Cefn Gwlad sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd a'r adolygiad o Asiantaeth yr Amgylchedd.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at aelodau'r pwyllgor a deallaf y caiff ei gyhoeddir ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.

Yn gywir,

**Richard Edwards AC**

**Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth**